



**Cofnodion o gyfarfod diweddarau Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC)  
a gynhaliwyd am 9.30am trwy Microsoft Teams ddydd Iau 5 Medi 2024**

- Presennol:** Cath Smith (Cadeirydd)  
John T Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans,  
Mike Humphreys, Emlyn Roberts (rhan o'r cyfarfod), Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis
- Y Swyddogion Gweithredol:** Heather Anstey-Myers (Prif Weithredwr Dros Dro)  
Karen Davies (Ysgrifenyddiaeth)  
Anne Dunn (Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol)  
Pip Gill (Swyddog Gweithredol Ymgyrchoedd)  
Gareth Jones (Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol)  
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)  
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelod o'r Bwrdd, Gareth Davies.

Nodwyd y byddai Aelod o'r Bwrdd, Emlyn Roberts yn ymuno â'r cyfarfod yn fuan.

2. **Diweddariad o'r Farchnad a'r Diwydiant**

Rhoddyd diweddariad gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol am y canlynol:

- Gwybodaeth am y Farchnad – mae prisiau'n uchel er bod y cyflenwad yn crebachu gyda phryder a heriau ar gyfer marchnadoedd mwy newydd a materion argaeledd parhaus. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n ddiweddarach y mis hwn unwaith y bydd gwerthiant y prif dymor yn dechrau. Mae'r rhagolygon ar gyfer cig eidion yn dda am y 12 mis nesaf, gyda'r cyflenwad yn destun pryder yn y tymor hir oherwydd niferoedd ar lawr gwlad. Mae angen monitro buchod magu'n ofalus.
- Diwydiant - er nad oes achosion wedi'u cadarnhau yng Nghymru o firws y tafod glas, mae nifer o achosion wedi eu cadarnhau yn Norfolk a Suffolk ac mae'r rhain yn cael eu monitro. Mae rhaglen wylidwriaeth gan y llywodraeth yn chwarae rhan allweddol yn ystod misoedd y gaeaf. Mae problem gyda phroseswyr sy'n symud anifeiliaid o'r dwyrain lle mae cyfyngiadau'n berthnasol. Mae gan HCC gynllun cyfathrebu â rhanddeiliaid mewn ymateb i achosion o'r tafod glas ar waith ac mae eisoes wedi rhannu deunydd cyfathrebu mwy cyffredinol. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg yn gynharach yn y flwyddyn i annog ffermwyr i fod yn wylidwrus heb achosi panig. Cynhaliwyd trafodaeth a nodwyd bod gan HCC berthynas dda gyda Swyddfa'r Prif Fildedygon.

3. **Gweithgareddau a diweddariadau o'r diwydiant**

## CYFRINACHOL

Rhodddwyd diweddariad gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau am y canlynol:

- Mae Ymgyrch Cig Oen Cymru ar gyfer 2024/2025 yn fyw, yn mynd yn dda ac yn datblygu'n gynt na'r hyn a ragwelwyd.
- Masnach cig eidion – gwaith i'w wneud o fewn cyfrifon allweddol allforio i gyflawni'r hyn sydd wedi'i gynllunio ond mae ar y trywydd iawn i gyflawni hyn wrth i gyfrifon allweddol gael eu cefnogi'n dda.
- Manwerthu DU – mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r holl fanwerthwyr i'w hysbysu am strategaeth HCC ar gyfer cig oen.
- Sioeau Masnach Allforio - Roedd cynlluniau ar y gweill i HCC fod yn bresennol yn SIAL, Paris o 19 - 23 Hydref 2024. Posibilrwydd i ymgysylltu â phrosesydd wrth ddefnyddio stondin HCC a gweithio'n fwy cydweithredol â Llywodraeth Cymru. Nodwyd na fyddai un o brif broseswyr Cymru'n mynychu'r sioe fasnach.
- Cyfathrebu Corfforaethol - Roedd Mehefin a Gorffennaf wedi bod yn fisoedd heriol oherwydd sylw negyddol yn y wasg ac fe wnaeth y tîm Cyfathrebu waith anhygoel. Roedd nifer yr erthyglau a gyhoeddwyd wedi cynyddu o 116 i 211 gyda darnau mwy cadarnhaol, mae'r gynulleidfa wedi cynyddu o 25 miliwn i 123 miliwn. Ysgogwyd hyn yn bennaf gan y cyfweiliad a roddwyd gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol i Nick Servini BBC Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru a drefnwyd yn dilyn gwaith caled gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau a'r Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol. Diolchodd y Cadeirydd a'r Bwrdd i bawb ac roeddent yn ddiolchgar am eu holl waith caled a'u canlyniad cadarnhaol. Trafodwyd negeseuon allweddol a bydd Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau yn anfon e-bost at y Bwrdd yn amlinellu strategaeth cysylltiadau cyhoeddus HCC ar gyfer y busnes.

### **Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

Rhodddwyd diweddariad gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol am y canlynol:

- SFS – cyfarfodydd wythnosol Grŵp Swyddogion, Panel Adolygu Carbon y Ford Gron. Cafwyd trafodaeth ynghylch safbwynt HCC yn y trafodaethau polisi parhaus.
- Mae prosiect glaswelltiroedd gwydn, LUNZ yn symud ymlaen yn araf a chytundebau'n cael eu llunio. Mae'n dal i fod dan embargo a disgwylir manylion ym mis Tachwedd.
- Cais astudiaeth gwmpasu AFN llwyddiannus gwerth £50k ar gyfer 'Bridio gwell cig eidion a defaid i gynllunio strategaethau bridio i gyflawni sero net'. Mwy o fanylion i ddilyn.

#### 4. **Derbyn cyflwyniad ar Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI HCC 2024-25**

## **CYFRINACHOL**

Rhoddodd Swyddog Gweithredol Ymgyrch HCC y cyflwyniad uchod. Sleidiau i'w rhannu gyda'r Bwrdd. Diolchodd y Cadeirydd i Swyddog Gweithredol yr Ymgyrch am y cyflwyniad diddorol.

Cynhaliwyd trafodaeth a oedd yn cynnwys ble i brynu a gwybodaeth DPA cyn cylchredeg cyflwyniad. Sicrhaodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau fod yr holl hysbysebion yn cael eu cynnal mewn cydweithrediad â'r proseswyr a'r manwerthwyr.

Nodwyd bod Emlyn Roberts, aelod o'r Bwrdd wedi gadael y cyfarfod.

### **5. Derbyn cyflwyniad ar Adolygiad ac Adborth o Sioe Frenhinol Cymru**

Rhoddodd Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol HCC gyflwyniad – sleidiau i'w rhannu. Diolchodd y Bwrdd i HCC am y modd arbennig o dda yr oeddent wedi addasu i newid yn y gyllideb. Bydd adborth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghynhadledd HCC.

Yn dilyn blwyddyn o newid i HCC yn Sioe Frenhinol Cymru, a oedd wedi mynd yn dda, cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r cyfleoedd i ddatblygu ymhellach i sicrhau mwy o werth am arian. Y Pennaeth Marchnad Strategol a Chysylltiadau ynghyd â'r Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol i roi sylw i hyn ym mis Hydref/Tachwedd a threfnu sesiwn a chasglu mwy o adborth o sioe 2024.

**Gweithred: Pennaeth y Farchnad Strategol a Chysylltiadau gyda'i gilydd / Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol**

### **6. Derbyn diweddariad ar lafar ynghylch trefniadau Cynhadledd HCC 14 Tachwedd 2024**

Rhodddwyd diweddariad ar lafar gan yr Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol. Y pwnc ar gyfer y gynhadledd eleni fyddai llwyddo mewn marchnadoedd byd-eang a gartref - sut y bydd cael eich arwain gan y farchnad yn cynnal safle blaenllaw'r diwydiant cig coch yng Nghymru. Fe'i cynhelir yng Nghanolfan Aelodau Sioe Frenhinol Cymru am 2pm.

Yr amcan fyddai rhoi gwybodaeth i'r gynulleidfa am yr amgylchedd gweithredu byd-eang a gartref, yn ogystal â dangos sut mae HCC yn gweithio mewn partneriaeth â'r gadwyn gyflenwi i ddarparu mentrau a gweithgareddau priodol i ymateb i'r cyfleoedd a'r bygythiadau. Er mwyn cyflawni hyn, bydd HCC yn gwahodd amryw o siaradwyr allanol a rhai ar bynciau penodol, yn cynnwys arbenigedd mewnol HCC. Mae gan Gig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI enw da haeddiannol yn fyd-eang am ragoriaeth ac mae cwsmeriaid masnach a defnyddwyr ledled y byd yn ymddiried ynddynt. Er mwyn cynnal y sefyllfa hon, mae'n rhaid i ddiwydiant cig coch Cymru weithio ar y cyd i ymateb i signalau'r farchnad er mwyn sicrhau bod ein brandiau a'n cynhyrchion cig coch sy'n arwain y byd yn parhau i fod yn addas i'r diben ar gyfer y dyfodol. Bydd cynhadledd HCC 2024 yn edrych ar y ffactorau sy'n ysgogi'r galw'n fyd-eang a gartref, yn dathlu sut mae HCC yn gweithio mewn partneriaeth â'r gadwyn gyflenwi i ddiwallu'r anghenion hynny, ac yn arddangos arfer gorau o'n diwydiant.

Agenda a siaradwyr i'w cadarnhau.

Cynhaliwyd trafodaeth.

### **7. Diweddariad Cyllid**

## **CYFRINACHOL**

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol ddiweddariad a chyflwynodd y sleidiau - mae copi ohonynt ar gael ar SharePoint.

Codwyd cwestiwn ynglŷn â sut roedd y drafodaeth ar arian wrth gefn yn datblygu. Nodwyd bod Maria Richards, Llywodraeth Cymru wedi dweud bod hyn yn cael sylw gan dîm cyllid LIC. Y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol i roi sylw i hyn gyda Maria Richards y tu allan i'r cyfarfod. Cynigiwyd cymorth a chefnogaeth gan aelodau'r Bwrdd os oedd angen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol yn ystod amgylchiadau heriol.

### **8. Unrhyw fater arall**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod.

Cydnabu'r Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod diweddaru diwethaf y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol cyn iddi adael ei rôl newydd o fewn AHDB. Dymunodd y Cadeirydd a'r Bwrdd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cymeradwyo'r cynllun Busnes Gweithredol.

### **9. Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:**

Dydd Iau 3 Hydref 2024 – Cyfarfod ffurfiol o Fwrdd HCC;

Mercher 6 Tachwedd 2024 – Diweddariad i Fwrdd HCC drwy Teams.

**Llofnodwyd.....**  
**Cadeirydd HCC**